**Camau i'w cymryd ar ôl cyfarfodydd Pwyllgor y Ty^ a gynhaliwyd ar 24 Mehefin ac 8 Gorffennaf 2004**

| Camau i'w cymryd | Personél | Hynt y Gwaith |
|---|---|---|
| | | |
| **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty^ 2003/04 -** i'w gyflwyno ar ffurf ddrafft i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod cyhoeddus a gynhelir yn gyhoeddus ar 7 Hydref 2004 | **Dianne Bevan** | Papur i'w gyflwyno i'r cyfarfod ar 7 Hydref. |
| | | |
| **Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad -** i'w gyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn | **Yr Ysgrifenyddiaeth** | I'w gyflwyno ar gyfer y cyfarfod ar 28 Medi 2004 |
| | | |
| **Cod y Cadeirydd ar gyfer Aelodau Pwyllgor y Ty^** - i'w gyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn. | **Y Swyddfa Breifat** | I'w gyflwyno ar gyfer y cyfarfod ar 5 Hydref 2004 |
| | | |
| **Cynrychiolaeth Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ym Mrwsel -** y sefyllfa ddiweddaraf | **Karin Phillips** | Anfonwyd y wybodaeth ddiweddaraf at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 24/06/04. |
| | | |
| **Trafodion y Cynulliad - cynlluniau wrth gefn** - papur i amlinellu cynlluniau manwl sydd wedi'u costio | **Andrew George** | Papur i'w gyflwyno i'r cyfarfod ar 18 Tachwedd. |
| | | |
| **Ymweliadau â'r Siambr** - ni ddylid caniatáu i grwpiau mawr o ymwelwyr fynd i mewn i'r Siambr oni wneir hynny fel rhan o ymweliad a drefnwyd. | **Ysgrifenyddiaeth y Siambr** | Ysgrifenyddiaeth y Siambr a'r staff Diogelwch wedi cael gwybod. |
| | | |
| **Cydweithredu â Phrifysgolion ar waith arbenigol -** papur ar y dewisiadau, gan gynnwys hyfforddi a datblygu myfyrwyr sy'n astudio ieithoedd, a'r cyrsiau sydd ar gael | **Gwen Parry** | Papur i'w gyflwyno i'r cyfarfod ar 18 Tachwedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Contract Merlin -** hysbysu'r Aelodau sydd â ffonau symudol a ddarparwyd gan y Cynulliad am y trefniadau eraill posibl | **Gwen Parry** | Anfonwyd Memo ar 5 Awst 2004. |
| | | |
| **Yr amser a ddangosir ar gyfrifiaduron y Cynulliad** - ymchwilio i'r ffaith nad ydynt yn dangos yr un amser | **Gwen Parry** | Mae Merlin wedi dod o hyd i'r broblem ac wedi'i datrys. Roedd problem gyda'r serfiwr canolog a olygai nad oedd rhai o'r serfwyr yn derbyn yr amser cywir. Mae Merlin yn y broses o edrych ar bob un o'r cyfrifiaduron lle cafwyd problem. Os oes unrhyw ddefnyddiwr yn parhau i gael y broblem hon, dylent gysylltu â llinell gymorth Merlin ar 8500 / 8700 er mwyn datrys y broblem. |
| | | |
| **Rhaglen MERLIN -** yr amserlen waith i'w anfon at yr Aelodau unwaith y byddai ar gael | **Tîm MERLIN** | Anfonwyd y wybodaeth ddiweddaraf at yr Aelodau ar 1 Medi 2004. |
| | | |
| **Adrodd yn ôl am y trefniadau llogi ceir ar gyfer swyddogion** | **John Bowley** | Darperir y wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod ar 18 Tachwedd. |
| | | |
| **Ymwelwyr sy'n annerch yn y Siambr** - y staff i rybuddio'r Aelodau sydd ar fin mynd i mewn i'r Siambr os oes ymwelwyr yn annerch y Cynulliad cyn 2pm | **John Bowley** | Mae'r staff wedi cael gwybod bod angen iddynt wneud hyn. |
| | | |
| **Adolygiad o Faterion yn ymwneud â Mynediad -** adolygu'r gwelliannau a wnaed yn y Cynulliad ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw, ystyried pa mor effeithiol ydynt a sut i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen | **Gill Lambert / Nerys Evans** | Papur i'w gyflwyno i'r cyfarfod ar 18 Tachwedd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cadw Cofnodion Gweinyddol Aelodau'r Cynulliad -** angen ceisio mwy o gyngor | **Wayne Cowley** | Llythyr wedi'i anfon at Gyllid y Wlad ac at y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | | |
| **Slipiau Cyflog** - y diweddaraf am ymateb darparwr gwasanaethau'r gyflogres i'r pwyntiau a godwyd ynghylch y wybodaeth sydd ar y slipiau cyflog | **Wayne Cowley** | Darperir y wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod ar 18 Tachwedd. |
| | | |
| **Cynllun pensiwn Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad -** roedd yr Aelodau wedi gofyn am bapur yn amlinellu'r dewisiadau ar gyfer gwella'r cynllun pensiwn cyfranddeiliaid a ddarperir ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. | **Wayne Cowley** | Darperir y wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod ar 18 Tachwedd. |
| | | |
| **Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad -** adroddiadau rheolaidd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant gwirioneddol o'i gymharu â'r rhagolygon, ac am wariant alldro gwirioneddol, a hynny er mwyn monitro'r gyllideb. | **Wayne Cowley** | Mae adroddiad monitro yn un o'r eitmau rheolaidd ar yr agenda. |
| | | |
| **Adeilad Newydd y Cynulliad** - rhoddwyd yr awdurdod i'r swyddogion geisio neilltuo amser mewn Cyfarfod Llawn i wahodd y Cynulliad i gymeradwyo bod Pwyllgor y Ty yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli'r adeilad newydd ar ôl iddo gael ei gwblhau ac am roi adnoddau i'r adeilad yn y cyfamser. | **Clerc y Pwyllgor** | Cyflwynwyd ar gyfer y cyfarfod ar 28 Medi 2004. |